# Strategaeth Ddigidol

# 2022 - 2027



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

## Rhagymadrodd

Mae'r Strategaeth Ddigidol hon yn amlinellu sut bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gwneud y mwyaf o dechnoleg i gyflawni ei weledigaeth o ddatblygu Conwy fel Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd. I gynorthwyo i gyflawni'r weledigaeth hon mae angen i ni ddatblygu fel Sir ddigidol, un sy'n croesawu arloesi ar draws ein gwasanaethau, yn hyrwyddo swyddi o ansawdd ac yn darparu cysylltedd digidol di-dor i'w dinasyddion, partneriaid a busnesau.

Rydym yn uchelgeisiol ar gyfer dyfodol Conwy ac yn cydnabod y bydd datblygu Sir sy'n gwbl ddigidol yn golygu y bydd angen i ni weithio i gefnogi unrhyw un sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Mae ein blaenoriaethau yn y Strategaeth Ddigidol wedi'u datblygu i sicrhau bod y blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor (2022-2027) yn cael eu cefnogi gan dechnolegau digidol a'r datrysiadau yr ydym yn eu mabwysiadu.

At hynny rydym yn cydnabod er nad yw Awdurdodau Lleol yn yr un sefyllfa â chwmnïau sector preifat i fanteisio ar dechnolegau newydd, mae gennym rôl bwysig fel galluogwr. Rydym yn gweithio i gyflawni hyn drwy ein Bwrdd Cyfleoedd ynghyd â rhaglenni fel ein Rhaglen Foderneiddio sydd wedi ennill gwobrau, Rhaglen Hwb sy'n datblygu gallu digidol yn ein hysgolion a ffurfio partneriaeth gyda'r rhaglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol i wella mynediad at fand eang ffibr yn y Sir. Mae cefnogi amcanion Rhaglen Adnewyddu'r Cyngor hefyd yn ystyriaethau allweddol wrth lunio ein Strategaeth Ddigidol. Wrth ddatblygu ein strategaeth rydym hefyd wedi ystyried sut y gall ein themâu gyfrannu'n effeithiol at y nodau lles a nodwyd yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Dyma ein pedair blaenoriaeth allweddol, fel yr amlinellir yn y strategaeth hon, i gyflawni ein gweledigaeth: gweithlu digidol, gwasanaethau digidol, cysylltedd digidol ac economi ddigidol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn sicrhau bod cysylltiadau corfforol gyda gwasanaethau digidol ar waith, rydym yn croesawu datrysiadau technoleg i gefnogi darpariaeth ddigidol, gan weithio fel partner a galluogwr i greu'r amgylchedd digidol gorau posib ar gyfer preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr i wneud y gorau o'r chwyldro digidol.


Gan ategu at ein lleoliad fel man dymunol mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol i ymweld ag o, i fyw a gweithio ynddo, byddwn hefyd yn lle sy'n meithrin sgiliau digidol ac arloeswyr technoleg i ddarparu datrysiadau digidol sydd o fudd i ni gyd. Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn gweithio i sicrhau bod Conwy mewn sefyllfa berffaith i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i barhau i fuddsoddi yng nghysylltedd y genhedlaeth nesaf lle bynnag y bo modd.



Y Cynghorydd Charlie McCoubrey,
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL






CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Gweithlu Digidol

Roedd rhaglen foderneiddio’r Cyngor, sydd wedi ennill gwobrau, yn cynnwys datblygu a meddiannu ein swyddfeydd newydd sbon yng Nghoed Pella, pan agorwyd ym mis Tachwedd 2018.

Cyn eu meddiannu, aeth gwasanaethau ar draws y Cyngor trwy brosesau newid sylweddol, wrth i’r Cyngor ddatblygu a gweithredu ei fodel gweithio’n hyblyg “doethwaith”, er mwyn sicrhau bod ein gweithlu yn defnyddio technoleg i weithredu ym mhob man. Gwnaed y mwyaf o le yng nghanolfan ddata newydd Coed Pella. Roedd datrysiadau technolegol yn allweddol o ran llwyddiant y newid; yr her nesaf yw manteisio ymhellach ar yr holl ddatrysiadau digidol sydd bellach ar gael i swyddogion ac aelodau.

Bu i’r newid sylweddol i ffyrdd o weithio yn sgil pandemig Covid-19 amlygu manteision i swyddogion ac aelodau o ran gweithio y tu allan i’r amgylchedd swyddfa traddodiadol trwy fynediad at y dechnoleg a’r datrysiadau digidol diweddaraf, gan gefnogi gwasanaethau wrth iddynt ddiweddaru a thrawsnewid eu ffyrdd o weithio.

Un canlyniad pellach o’r cynllun corfforaethol yw’r thema drawsbynciol sy’n datgan “Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn”. Mae datblygu gweithlu digidol yn rhannol yn dangos ein cynnydd o ran gwireddu hyn.

Er mwyn gwella ein gweithlu digidol ymhellach, rydym yn bwriadu cyflawni’r canlynol:

Datblygu ein sgiliau digidol.

- Buddsoddi yn ein gweithlu i sicrhau eu bod nhw'n fedrus yn ddigidol ac yn gyfforddus yn defnyddio a manteisio ar yr offer technoleg diweddaraf.
- Gloywi eu sgiliau TG a Thrawsnewid Digidol yn barhaus er mwyn gwneud y mwyaf o'n gallu i gefnogi ac arloesi.

Adnoddau cynhyrchiant a chydweithio.

- Datblygu strategaeth gyflwyno ar gyfer mudo tuag at yr offer cynhyrchiant bwrdd gwaith diweddaraf e.e. Microsoft 365 a Zoom
- Gweithredu datrysiadau digidol i gefnogi darlledu a chyfranogiad yn ein cyfarfodydd democrataidd.

Yr offer i wneud y dasg.

- Sicrhau bod swyddogion ac aelodau yn cael y dyfeisiau a'r perifferolau diweddaraf i gefnogi gweithio'n ddigidol.
- Darparu mynediad systemau allweddol i swyddogion ac aelodau o unrhyw leoliad o ystod o ddyfeisiau, gan gynnwys Cyfrifiaduron, Gliniaduron, Dyfeisiau Llechen a Ffonau Clyfar. from a range of devices including PCs, Laptops, Tablets and Smartphones.

Gweithio di-bapur.

- Cefnogi datblygiadau pellach i wasanaethau ar gyfer gweithredu mewn modd di-bapur, gan ostwng lefelau argraffu, postio a storio.
- Datblygu ffyrdd digidol amgen o weithio neu hen dechnolegau sy'n cael eu defnyddio o hyd gan ein gwasanaethau e.e. post a ffacs.

Cynadledda digidol.

- Hyrwyddo platfformau cynadledda digidol ar gyfer cyfarfodydd er mwyn lleihau teithio a defnyddio'r swyddfa.
- Cynyddu'r defnydd o fideo ar gyfer recordio neu ffrydio cyfarfodydd hygyrch, negeseuon corfforaethol, dosbarthiadau a weminarau.

## Gwasanaethau Digidol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu dull digidol yn gyntaf ar gyfer darparu ei wasanaethau ac mae'r wefan wedi'i nodi fel y brif sianel ar gyfer cyswllt ac adalw gwybodaeth. Ategir hyn gan gymorthyddion gwybodaeth a thimau gwasanaeth ymroddedig sy'n gallu defnyddio technoleg ddigidol i ddarparu mwy o wybodaeth trwy ddefnyddio canolfannau cyswllt digidol, teleffoni neu wyneb yn wyneb.

Trwy gynnig dull digidol â chymorth ar gyfer y rhai sydd o bosib angen cymorth ychwanegol, mae'n helpu i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth neu swyddogion sydd heb gysylltiadau digidol, neu sydd ddim yn hyderus yn eu defnyddio, yn cael eu cynnwys.

Byddwn yn datblygu llwyddiannau diweddar i ddarparu'r profiad gorau posibl i unrhyw un sy'n dymuno ymgysylltu â'r Cyngor, gan gyfrannu at ganlyniad cynllun corfforaethol y Cyngor, "Mae pobl yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at eu cymuned". Byddwn yn ystyried ffyrdd arloesol o ddefnyddio technoleg i wella sut rydym ni'n gofalu am ein pobl ddiamddiffyn neu'n diogelu ein cymunedau, i gefnogi ein targed i sicrhau bod "pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel".

Fel rhan o Raglen Adnewyddu'r Cyngor, byddwn yn gweithio i flaenoriaethu datblygiad gwasanaethau ar-lein i ganolbwyntio ar ddull "digidol yn gyntaf" i ddarparu mynediad hygyrch ar gyfer chwilio, gwneud cais, ymgeisio a thalu am wasanaethau ar-lein.

Byddwn yn ymdrechu i ddatblygu ein darpariaeth gwasanaeth digidol ymhellach trwy fabwysiadu'r canlynol:

### Blaenoriaethu dull Digidol yn Gyntaf.

- Gweithredu offeryn integreiddio a ffurf ddigidol newydd i ddatblygu'r wefan, gan gynnig gwasanaethau gwell a hygyrch sy'n cefnogi bywyd modern lle bynnag y bo'n briodol.
- Nodi a gweithredu datrysiadau "Sgyrsfot" i awtomeiddio darpariaeth gwasanaeth sylfaenol ymhellach.
- Ymestyn mynediad at wasanaethau ar-lein fel sianel o ddewis i ddinasyddion, busnesau a phartneriaid.

### Systemau Rheoli Modern.

- Gweithio gyda gwasanaethau i dargedu uwchraddio hen systemau sy'n dibynnu ar brosesau papur neu ymyrraeth gan swyddogion â llaw heb fod angen, fel y gall defnyddwyr hunan wasanaethu.
- Cymryd cyfleoedd i resymoli systemau a gwella integreiddio ar gyfer rhannu data fel y bo'n briodol.

### Arloesi.

- Datrysiadau y gall defnyddwyr gwasanaeth elwa'n uniongyrchol ohonynt e.e. apwyntiadau digidol neu fyw â chymorth.
- Ehangu'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial a datrysiadau Rhyngrwyd Pethau, y gall cymunedau, busnesau a defnyddwyr gwasanaeth elwa ohonynt.
- Datblygu datrysiadau robotig i ryngwynebu rhwng systemau ar-lein a chefndirol.

### Newid Sianeli.

- Datblygu ein canolfannau cyswllt trwy ddefnyddio technoleg newydd lle bo'n briodol i gefnogi'r Strategaeth Gwasanaeth a Chael Gafael ar Wybodaeth.
- Mabwysiadu datrysiadau i wella dewis o ran pryd, ble a sut y ceir mynediad at wasanaethau.
- Ehangu'r defnydd o dechnoleg ddigidol fel bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.

### Cydymffurfiaeth.

- Gweithredu strategaeth i sicrhau bod gwasanaethau digidol y Cyngor yn cynnig ystod o sianelau a'u bod nhw'n hygyrch.
- Sicrhau bod gwasanaethau digidol yn cefnogi safonau cenedlaethol a rhai'r Cyngor e.e. cenedlaethau'r dyfodol, dwyieithog.
- Adolygu gwasanaethau digidol yn annibynnol er mwyn cynnal safonau a hygyrchedd seibrgadernid.

### Mesur Cynnydd.

- Cynnal asesiadau aeddfedrwydd digidol i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwelliant.
- Meincnodi meysydd allweddol trwy asesiadau ac arolygon mewnol ac allanol e.e. SOCITM.

# Cysylltedd Digidol

Mae isadeiledd digidol y genedl yn cael ei gydnabod fwy fwy fel y 'pedwerydd gwasanaeth', gan fod cysylltiadau rhyngrwyd cadarn bellach yn hanfodol i'n bywydau bob dydd, pa fo pobl o bosib yn ffafrio ymgysylltu o bell. Amlygwyd hyn fwy nag erioed yn ystod Pandemig y Coronafeirws yn 2020. Mae ein dinasyddion, busnesau ac ymwelwyr yn disgwyl cael mynediad at gysylltiadau band eang gwydn a chyflym o unrhyw leoliad yng Nghonwy sydd ddim yn effeithio arnom, boed gartref, yn dysgu, yn gweithio neu'n ymweld â'r Sir. Er mai darparwyr sy'n gyfrifol am ddarparu band eang cyflym, gall y Cyngor hyrwyddo a chefnogi rhaglenni rhanbarthol i gyflymu'r broses o'i gyflwyno neu hyrwyddo cyllid grant ar gyfer cyflawni gwelliannau yn lleol.

Mae hyn yr un mor wir am ddarpariaeth isadeiledd a systemau'r Cyngor, mae'n hanfodol y gall ein hisadeiledd fodloni gofynion staff, aelodau ac unrhyw un sy'n dymuno ymgysylltu â'r Cyngor a sicrhau y gall ein gwasanaethau weithredu'n effeithiol. Mae'n rhaid i'n hisadeiledd ddarparu gwytnwch a chefnogi gallu defnyddio technoleg o unrhyw leoliad.

Mae cynnal cysylltiadau â systemau a data yn ddiogel hefyd yn ystyriaeth allweddol ac mae Seibergadernid effeithiol yn hanfodol o ran sicrhau y diogelir data a systemau ac y gellir eu hadfer yn brydlon. I'r perwyl hwnnw, gall datblygu Strategaeth Seibrgadernid gynnal ffocws ar y maes risg allweddol hwn i'r Cyngor, gan ein helpu i sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol i fygythiadau newydd a chyfnewidiol.

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022-2027 yn nodi'r flaenoriaeth "Mae pobl yng Nghonwy yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel". Fel rhan o'r flaenoriaeth honno, mae'r Cyngor wedi nodi ei ymrwymiad i sicrhau bod mesurau ar waith i ddiogelu data personol a hyrwyddo seiberddiogelwch i gadw dinasyddion yn ddiogel ar-lein.

Rydym yn bwriadu cymryd y camau canlynol i helpu i ddatblygu a gwella cysylltedd digidol ar draws y Sir dros gyfnod y strategaeth hon:

Ymestyn argaeledd ffibr cyflym iawn i eiddo.

- Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ddarparu cysylltiad ffibr llawn i leoliadau'r sir.
- Cefnogi mentrau ar gyfer datblygu capasiti band eang gwledig trwy gyfranogiad ac ymgysylltiad cymunedol i wella cynhwysiant digidol.

Gwella mynediad at rwydweithiau symudol.

- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddefnyddio'r rhwydwaith 4G sydd ar gael eisoes, yn hytrach na llinellau sefydlog.
- Chwilio am gyfleoedd i flaenoriaethu a hyrwyddo gosod rhwydwaith ffonau symudol 5G yng Nghonwy.

Datblygu seilwaith TGCh a Seibrgadernid.

- Sicrhau bod canolfannau data yn cefnogi gweithio hyblyg a gosod datrysiadau digidol yn llawn.
- Cynyddu Seibrgadernid, mabwysiadu mesurau i reoli bygythiadau a diogelu gwybodaeth yn ogystal â sicrhau bod prosesau adfer ar waith o fewn Strategaeth Seibrgadernid.
- Darparu'r isadeiledd HWB cynaliadwy.

Ymestyn darpariaeth Wi-Fi hygyrch i'r cyhoedd a busnesau.

- Chwilio am gyfleoedd cyllido i ymestyn a gwella Wi-Fi am ddim ar draws Conwy cefnogi cynhwysiant digidol a moderneiddio mynediad at ddigwyddiadau neu wasanaethau.
- Cefnogi mentrau i ddarparu cysylltiadau newydd sy'n cefnogi technoleg newydd e.e. Rhyngrwyd Pethau (IoT) a LoraWAN.

Buddsoddi mewn Gwasanaethau "Cwmwl".

- Goruchwylio buddsoddiad yng nghanolfan(nau) data Conwy, gan sicrhau bod yr holl systemau rheng flaen a chefndirol yn diogelu data, yn wydn ac yn hygyrch o unrhyw leoliad.
- Cefnogi datrysiadau diogel allanol a gynhelir gan y "cwmwl", lle gall y Cyngor elwa ohonynt.

Datblygu seilwaith rhannu cyfleoedd.

- Dod o hyd i gyfleoedd i leihau canolfannau data lluosog gyda phartneriaid sector cyhoeddus a masnachol.
- Chwilio am gyfleoedd i fanteisio ymhellach ar Gytundeb Band Eang y Sector Cyhoeddus i sicrhau arbedion maint.

## Economi Ddigidol

Mae sicrhau bod “pobl yng Nghonwy yn byw mewn Sir sydd ag economi ffyniannus” yn amcan pellach yn ein Cynllun Corfforaethol. Trwy geisio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, colegau, Llywodraeth Cymru a busnesau, gallwn helpu i godi ymwybyddiaeth a chefnogi mabwysiadu syniadau a mentrau newydd i dargedu twf yn economi ddigidol Conwy.

Hefyd, gall helpu i ddatblygu a gwella sgiliau digidol ar draws ein Sir, gan gefnogi ein nod “Mae pobl wedi’u haddysgu ac yn fedrus”.  Drwy wella mynediad at wasanaethau digidol drwy fynediad at offer, hyfforddiant, lleihau cymhlethdod a lleihau costau, ein nod yw helpu i gynyddu cynhwysiant digidol yn ogystal â mynd i'r afael â thlodi digidol lle mae cyfleoedd ar gael i wneud hynny.

Digwyddiadau a Thwristiaeth.

- Mae cymorth TG priodol ar gael mewn digwyddiadau allweddol e.e. trwy fynediad Wi-Fi am ddim.
- Gweithio â gwasanaethau i wella'r wefan a gwasanaethau archebu a thalu, er mwyn gwneud y mwyaf o incwm a phrofiad cwsmeriaid.
- Datblygu platfformau digidol i hyrwyddo digwyddiadau, sioeau a mentrau.

Arloesi.

- Gweithio ochr yn ochr â phartneriaid addysg a busnes i rannu dysgu o dechnolegau newydd e.e. mabwysiadu LoraWAN ar gyfer datrysiadau gofal, amaethyddiaeth a rheoli llifogydd.
- Cefnogi adloniant trwy ddatblygu datrysiadau i ddarparu adloniant yn ddigidol e.e. dosbarthiadau ffitrwydd.

Partneriaethau.

- Hyrwyddo cyfleoedd dysgu a lleoliadau i swyddogion a dysgwyr ddatblygu lefelau sgiliau a gwneud mynediad yn haws mewn meysydd technoleg ddigidol.
- Datblygu a chyflwyno gwasanaethau ar gyfer partneriaid, er mwyn helpu i godi cymhwysedd a gallu digidol gan gynnwys seibrddiogelwch.

Trefi a phentrefi digidol.

- Chwilio am gyfleoedd cyllido ar gyfer buddsoddiad digidol i adfywio trefi a chymunedau.
- Cefnogi cymunedau i wella mynediad at fand eang cyflym iawn.

Busnesau digidol.

- Gweithio gyda darparwyr datrysiadau ac isadeiledd digidol lleol i wella defnydd Conwy o wasanaethau digidol ymhellach.
- Cefnogi rhannu ac ymestyn rhwydweithiau, band eang a data sydd ar gael i'r cyhoedd.

## Datganiad Cyflawni

Mae'r Strategaeth Ddigidol yn nodi dyheadau'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol ar gyfer cyfnod 2022 - 2027. Er ei bod hi'n anodd rhagweld y datblygiadau technolegol dros gyfnod y strategaeth, ein prif fwriad yw dangos ymrwymiad i gefnogi'r broses o fabwysiadu datrysiadau technolegol blaengar yng Nghonwy y gall pawb elwa ohonynt.

Rydym mewn chwyldro digidol ar hyn o bryd gyda chyfleoedd yn codi yn sgil datblygiadau cyson i seilwaith a datrysiadau technolegol. Ni allwn sefyll yn llonydd. Mae deall y galw ar ein gwasanaethau a sut y gall darparu datrysiadau "parod yn ddigidol" helpu i'w fodloni yn hanfodol. I'r perwyl hwnnw, mae angen ymgynghori ar draws ein gwasanaethau er mwyn datblygu'r strategaeth hon, gan flaenoriaethu meysydd hanfodol ar gyfer buddsoddi a dyrannu adnoddau TG a Thrawsnewid Digidol. Mae'r model partner busnes a fabwysiadwyd gan TG a Thrawsnewid Digidol yn helpu i sicrhau cynnal yr ymgynghoriad hwn a bod anghenion gwasanaethau yn cael eu hystyried. Yn ei dro, mae'r adborth hwn yn cyfrannu at ddylanwadu ar flaenoriaethau a meysydd y strategaeth, ac o ganlyniad y polisïau a'r safonau technegol a fabwysiadwyd.

Hefyd, mae cymryd rhan mewn grwpiau ymgynghori a phartneriaeth yn ogystal â dysgu o arferion da eraill, er enghraifft mewn Cynghorau eraill, wedi ein helpu i sicrhau bod y strategaeth yn cefnogi'r blaenoriaethau o ran ystyriaethau allweddol megis seibergadernid, diogelwch gwybodaeth a hygyrchedd i ddefnyddwyr ein gwasanaethau.

Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar sut rydym yn ystyried potensial TGCh a digideiddio yn y dyfodol ar gyfer 'cefnogi Conwy flaengar', yn enwedig wrth i ni gymryd camau yn dilyn moderneiddio i wireddu cyfleoedd yn y dyfodol a sicrhau'r elw mwyaf ar fuddsoddiadau diweddar.

Fel gydag unrhyw strategaeth, mae angen i ganlyniadau datganedig ein siwrne ddigidol gydbwyso darpariaeth, dyheadau a disgwyliadau â'r her go iawn i'w chyflawni o ran cost. Mae cydgrynhoi neu uwchraddio datrysiadau digidol yn cynnig arbedion ac arbedion effeithlonrwydd. Byddwn yn ceisio ariannu dilyniant ar y siwrnai hon ar y cyd ar draws gwasanaethau trwy geisio buddsoddiad cyfalaf a defnyddio cymorth grant â ffocws digidol ar gyfer canlyniadau targed cynaliadwy.

Felly, sut beth fydd llwyddiant?a Credwn y gellir cynnwys y strategaeth hon, trwy weithio'n rhagweithiol â'n gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth, defnyddio ein model partner busnes a chyfeiriad gan y Cynllun Corfforaethol i ddeall disgwyliadau, y gellir eu cynnwys yn y fframwaith cynllunio busnes, gan gychwyn prosiectau hyfyw allweddol dros gyfnod y strategaeth, a fyddai'n cyflawni gwelliannau hirdymor i wasanaethau'r Cyngor.

Ein gweledigaeth, trwy weithredu'r strategaeth hon, yw cyflawni gwelliant hanfodol i'r ffordd rydym yn gweithio, sut y caiff ein gwasanaethau eu darparu a sut rydym yn cyfrannu at fywydau ein preswylwyr ac ymwelwyr a fydd yn cynnwys:

- Gweithlu hyddysg yn ddigidol, yn cydweithio ar draws timau o unrhyw leoliad, gan leihau'r angen i deithio rhwng safleoedd a'i gwneud yn haws gweithio o gartref.
- Ymestyn gallu ein dinasyddion i ymgysylltu, rhyngweithio a chyfranogi gyda'r Cyngor yn ddigidol i gael mynediad at wasanaethau a chyfarfodydd democrataidd.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran y modd y mae pobl yn deall ac yn cael mynediad at ein gwasanaethau.

- Helpu i wella ein prosesau ymhellach er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol a syml.
- Lleihau costau sy'n gysylltiedig â phrosesau a systemau etifeddiaeth er mwyn sicrhau arbedion cynaliadwy.
- Cefnogi ein hysgolion fel bod ganddynt y dechnoleg ddiweddaraf, er mwyn sicrhau y gall athrawon gefnogi plant sy'n dysgu'n ddigidol yn y dosbarth a'r cartref.
- Datblygu seibergadernid ymhellach ar draws y Cyngor i reoli'r bygythiad cynyddol o ymosodiad seiber a chydnabod y ddibyniaeth gynyddol ar ddatrysiadau technolegol.
- Ehangu a gwella'r angen hanfodol am gapasiti band eang gwell i gartrefi, busnesau ac ymwelwyr.
- Datblygu ein partneriaethau i rannu a manteisio ar dechnolegau presennol a datblygol a all helpu i wireddu gwelliannau i'n bywydau a'n lles.

Er nad ydym yn rhagweld y bydd pob elfen o ffocws yn cael ei chymeradwyo, teimlwn ei bod hi'n bwysig amlinellu'r potensial i ddatblygu ymhellach wrth i ni ddefnyddio technoleg i gefnogi ein ffyrdd o weithio sy'n newid yn gyflym.

Bydd y strategaeth hon yn cael ei defnyddio fel cyfeiriad ar gyfer cynllunio Gwasanaeth TGCh a Thrawsnewid Digidol yn ystod 2022 – 2027.